

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
Cymunedau

Dyddiad: 10 Mai 2018

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 17 MAI 2018 am 10.00 am yn YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR HOLL AELODAU ETHOLEDIG AM 9.15 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 PENODI IS-GADEIRYDD (Tudalennau 7 - 8)

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2018/19 (gweler ynghlwm gopi o ddisgrifiad swydd ar gyfer Aelod Archwilio a Chadeirydd / Is-Gadeirydd)

4 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

5 COFNODION (Tudalennau 9 - 20)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2018 (copi ynghlwm).

6 CREDYD CYNHWYSOL (Tudalennau 21 - 36)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Contractau a Pherfformiad Prosiect (copi ynghlwm) yn manylu ar effaith tebygol cyflwyno'r Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol ar Wasanaethau'r Cyngor ac ar breswylwyr y Sir a'r gwaith cynllunio a pharatoi sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn.

10.10-11.00 a.m

EGWYL
11.00-11.15 a.m.

7 STRATEGAETH ARWYDDION TWRISTIAETH AR GYFER SIR DDINBYCH
(Tudalennau 37 - 64)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd a'r Arweinydd Tîm – Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau, gan roi'r diweddaraf i aelodau am ddatblygiad cychwynol strategaeth arwyddion twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych.

11.15-12.00 p.m.

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 65 - 84)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

12.00-12.15 p.m.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor.

12.15-12.20 p.m.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

Dim

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Huw Williams
(Cadeirydd)

Brian Blakeley
Meirick Davies
Rachel Flynn
Tina Jones
Merfyn Parry

Y Cynghorydd Graham Timms (Is-
Gadeirydd)

Anton Sampson
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Cheryl Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

(vi) Rôl: **Aelod Pwyllgor Archwilio/Cadeirydd**
Cyflog: **Band 3 (Cadeirydd yn unig)**

Sylwch: Mae'r eitemau sydd wedi'u hamlygu'n benodol i rôl y Cadeirydd

1. PRIF GYFRIFOLDEBAU

- I'r Cyngor Llawn

2. PWRPAS Y RÔL

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad.
- Cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Archwilio, datblygu a chyflwyno ei raglen waith ac yn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a monitro effaith polisi'r Cyngor.
- Gwneud y gweithredwr yn gyfrifol, monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau a herio penderfyniadau trwy'r trefniadau galw i mewn lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu blaenraglen waith y pwyllgor.
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor ac i bobl eraill fel sy'n briodol.
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu diwallu, ac y glynir wrth y cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion sefydliadol eraill.
- Gweithredu fel canolbwynt cysylltu rhwng y cyngor, y gymuned a chyrrff allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth archwilio.
- Annog cyfraniadau effeithiol gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.
- Asesu perfformiadau unigol a chyfunol yn y pwyllgor a chysylltu â'r Arweinydd Grŵp perthnasol i symud cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu blaenau.
- Diwallu cyfrifoldebau rôl yr aelod etholedig.

3. GWERTHOEDD a DISGWYLIADAU

- Ymroi i werthoedd Cyngor Sir Ddinbych a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
 - Balchder
 - Hygrededd
 - Parch
 - Undod
 - Mynychu pob cyfarfod perthnasol.
 - Cynnal materion yn electronig, h.y. cyfarfodydd a chyfathrebu, lle bo'n bosibl yn y Cyngor.
 - Mynychu hyfforddiant gorfodol fel y dynodwyd yn y cod ymddygiad a'r cyfansoddiad.

- Cymryd rhan mewn adolygiad datblygu blynyddol i wella'n barhaus perfformiad yr aelod a'r Cyngor.
- Esbonio a chyfrif am berfformiad personol fel Cynghorydd Sir yn rheolaidd, yn enwedig trwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor.

PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, LL15 1YN, ddydd Iau 22 Mawrth 2018 am 10am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Meirick Davies, Rachel Flynn, Tina Jones, Anton Sampson, Glenn Swingle, Andrew Thomas, Graham Timms (Vice-Chair) and Huw Williams (Chair)

Aelodau Cyfetholedig – roedd Mike Hall, Kathleen Jones, David Lloyd a Gareth Williams yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar yr agenda.

Roedd y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy a Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

Sylwedyddion – Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Barry Mellor, Arwel Roberts, Peter Scott, Rhys Thomas, Emrys Wynne a Mark Young.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (TW), Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant (KE), Prif Reolwr – Moderneiddio Addysg (GD), Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau (IL), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd (MJ) Arweinydd Tîm – Rheoli Cyfathrebu & Ymgyrchu (GW), Peiriannydd Perygl Llifogydd (WH), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Merfyn Parry a/ac Cheryl Williams

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Mynegodd y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Brian Blakeley, Graham Timms, Glenn Swingle, Huw Williams, Meirick Lloyd Davies, Tina Jones, Emrys Wynne, Peter Scott ac Anton Sampson gysylltiad personol ag eitem 5 ar y Rhaglen – Trefniadau Clwstwr Ysgolion gan eu bod oll yn Lywodraethwyr Ysgolion mewn ysgolion lleol.

Datganodd yr aelodau cyfetholedig Mike Hall a David Lloyd gysylltiad personol ag eitem 5 ar y Rhaglen – Trefniadau Clwstwr Ysgolion gan eu bod yn Lywodraethwyr ysgolion mewn ysgolion lleol.

3 **MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 **COFNODION**

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2018.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2018 fel cofnod cywir.*

5 **TREFNIADAU CLWSTWR YSGOLION**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl ifanc yr adroddiad (a gylchredwyd eisoes) oedd yn rhoi adborth i aelodau ar y gwaith a wnaed gan swyddogion mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor, ym Mehefin 2017, y dylid ystyried datblygu proses i hwyluso ysgolion, pe byddent yn dymuno, i wneud cais i adolygu eu trefniadau o ran clwstwr ysgolion. Yn ystod ei gyflwyniad, dywedodd yr Aelod Arweiniol bod cais y Pwyllgor yn deillio o ystyried Polisi Cludiant I Ddysgwyr newydd y Cyngor, sy'n dod i rym ym Medi 2018, ac yn benodol mewn ymateb i bryderon gan rieni disgyblion yn Ysgol Pantpastynog, Prion ac Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr ynglŷn ag a fydden nhw yn gymwys am gludiant am ddim i'r ysgol i Ysgol Glan Clwyd neu Ysgol Brynhyfryd, yn dibynnu ar eu cyfeiriad cartref. Yn ystod y broses o ddatblygu'r Polisi newydd o ran Cludiant I Ddysgwyr daeth yn amlwg bod y trefniadau clwstwr ysgolion a'r berthynas 'ysgol fwydo' gydag ysgolion uwchradd yn arbennig o bwysig i ddisgyblion, rhieni / gofalwyr ac ysgolion fel ei gilydd. O ganlyniad, gwnaed darpariaeth o fewn y polisi newydd Cludiant I Ddysgwyr i gydnabod y berthynas 'ysgol fwydo' a darparu cludiant am ddim yn ôl disgrisiwn i un ai'r ysgol uwchradd addas agosaf neu'r ysgol uwchradd 'fwydo' gydnabyddedig, cyn belled bod cyfeiriad y dysgwyr a'r man pigo i fyny ymhellach na thair milltir o'r ysgol uwchradd. Roedd gan Ysgol Bro Cinmeirch bryderon penodol bod rhieni / gofalwyr yn dewis addysg ffydd cyfrwng Cymraeg er mwyn cael mynediad at Ysgol Pantpastynog ac wedyn er mwyn cael trosglwyddo i Ysgol Glan Clwyd o dan y trefniadau ysgol fwydo os na gellid rhoi cludiant yn ôl disgrisiwn i Ysgol Glan Clwyd i ddisgyblion Bro Cinmeirch.

Dywedodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant wrth Aelodau bod angen sefydlu Gweithgor er mwyn symud cais y Pwyllgor i ystyried datblygu proses ar gyfer ysgolion cynradd sydd am newid eu trefniadau clwstwr ysgolion ymlaen. Atodwyd trosolwg o gylch gwaith y Gweithgor fel Atodiad 3 i'r adroddiad. Gwahoddwyd pob 'clwstwr ysgolion uwchradd' ar draws y sir i benodi dau gynrychiolydd i wasanaethau ar y Gweithgor. Roedd y cynrychiolwyr clwstwr a bendodwyd yn cynnwys trawstoriad o arbenigedd ysgolion h.y. penaethiaid, rheolwyr busnes a chyllid a llywodraethwyr. Roedd cynrychiolaeth awdurdodau lleol ar y Gweithgor yn cynnwys aelodau o'r timau Cyllid Ysgolion a Chludiant Dysgwyr. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth wrth y Pwyllgor bod y Gweithgor, wrth ddwyn ei waith i ben, wedi penderfynu nad oedd angen datblygu proses i alluogi ysgolion cynradd i wneud cais i newid eu trefniadau clwstwr. Yn eu barn nhw dylai'r Cyngor barhau i ganolbwyntio ar yr Agenda Moderneiddio Ysgolion. Roedd eu barn yn debyg i farn Gwasanaeth Addysg y Cyngor.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau dywedodd yr Aelod Arweiniol, y Pennaeth Addysg, a'r Rheolwr Adnoddau a Chynllunio:

- tra bo deddfwriaeth yn nodi bod gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol i ddisgyblion oedd yn dewis derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, cyn belled a'u bod yn mynychu'r ysgol addas agosaf ac yn bodloni'r meini prawf pellter, roedd darparu cludiant am ddim i'r ysgol i ysgolion ffydd yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, roedd Sir Ddinbych yn ymdrin ag ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd yn yr un modd wrth benderfynu ar hawl cludiant i'r ysgol;
- roedd deddfwriaeth cludiant i ddysgwyr yn nodi fod yn rhaid i'r cyfnod o amser yr oedd disgwyl i ddisgybl ei deithio er mwyn derbyn addysg fod yn rhesymol;
- roedd dewis rhieni yn flaenoriaeth pan fyddai rhieni / gofalwyr yn dewis ysgol i'w plentyn, roedd dyletswydd yr Awdurdod yn hyn o beth yn ymestyn at ddarpariaeth cludiant am ddim i'r ysgol i'r disgybl i'r ysgol addas agosaf os oedd yn bellach na'r pellter disgwylidig i'r disgybl / rhieni wneud eu trefniadau eu hunain o ran cyrraedd yr ysgol;
- tra roedd ysgol gynradd wedi mynegi diddordeb mewn gofyn i'r awdurdod lleol ddatblygu proses er mwyn newid y trefniadau clwstwr ysgolion unwaith roedd y Gweithgor wedi'i sefydlu, daeth yn amlwg nad oedd awch ymysg cynrychiolaeth ehangach y clwstwr ysgolion i fynd a'r gwaith hwn ymhellach. Cydnabu Swyddogion na chafodd clystyrau Dinbych na Llangollen eu cynrychioli yn llawn yng nghyfarfod y Gweithgor, ond er hynny nid oedd yr un clwstwr wedi mynegi eu cefnogaeth dros nac yn erbyn datblygu proses;
- roedd y trefniadau clwstwr ysgolion cyfredol yn eu lle yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd. Roedd yn fodel cydnabyddedig ar gyfer creu ac adeiladu perthnasau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd y model clwstwr ysgolion wedi ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (LIC);
- un o'r risgiau a nodwyd o ran datblygu proses er mwyn i ysgolion newid eu trefniadau clwstwr oedd yr effaith negyddol y gallai hyn o bosib ei gael ar gyllidebau nad ydynt wedi eu dirprwyo ysgolion unigol os byddent yn dewis newid eu trefniadau clwstwr yn rheolaidd; a
- pe byddai'r Pwyllgor yn argymhell datblygu gweithdrefn i alluogi ysgolion i newid eu trefniadau clwstwr ysgolion byddai angen ymgynghori gyda rhieni a rhanddeiliaid eraill cyn ei gyflwyno i'r pwyllgor archwilio er mwyn ei ystyried. Byddai datblygu gweithdrefn yn golygu gwaith ac adnoddau sylweddol ar ran y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth fanwl gan y Pwyllgor:

Penderfynwyd: yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (i) ***nad oedd angen datblygu proses i alluogi ysgolion cynradd i newid eu trefniadau clwstwr ysgolion gan y byddai hyn yn gweithio yn erbyn y dull gweithredu cydlynol i foderneiddio ysgolion Sir Ddinbych;***
- (ii) ***Monitro gweithrediad Polisi Cludiant i Ddysgwyr newydd 2017, yn unol â phenderfyniad gwreiddiol y Pwyllgor ar 15 Mehefin 2017, a gall***

- pryderon Ysgol Bro Cinmeirch hefyd ffurfio rhan o'r broses adolygu hwn; a*
- (iii) bod yr Awdurdod yn ymateb i Bennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Bro Cinmeirch yn amlinellu'r uchod.**

6 ADRODDIAD DIWEDDARU AR REOLI GWYLANOD

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd adroddiad y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a'i atodiadau cysylltiol (a gylchredwyd eisoes), er mwyn diweddarau aelodau ar y cynnydd a wnaed hyd yma o ran rhoi Cynllun Gweithredu Rheoli Gwylanod a chamau gweithredu arfaethedig ar waith i liniaru'r niwsans a achosir gan wylanod yn y sir.

Dywedodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wrth aelodau mai cynllun Cyngor cyfan yw'r Cynllun Gweithredu, Atodiad 3 yr adroddiad, gyda chamau gweithredu wedi eu dyrannu i nifer o wasanaethau eu symud ymlaen a'u gweithredu. Y flaenoriaeth ar hyn o bryd oedd darparu'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus, a amlinellir yn Atodiad 4, a gweithio gyda busnesau bwyd i leihau gwastraff bwyd, sy'n denu gwylanod. Ar hyn o bryd y ffocws yw addysgu'r cyhoedd a pherswadio trigolion, ymwelwyr a busnesau i weithio gyda'r Cyngor mewn ymgais i leihau'r niwsans a'r llanast a achosir gan wylanod.

Amlinellodd Arweinydd Tîm y Cyngor: Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchu y camau gweithredu a'r mentrau sydd yn mynd rhagddynt fel rhan o'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus, a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2018. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ymgyrch cyfryngau cymdeithasol fyddai'n cynnwys fideos codi ymwybyddiaeth;
- cysylltu â chynghorau dinas, tref a chymuned er mwyn ceisio eu cefnogaeth i'r gwaith, a'u hannog i gefnogi gwaith y Cyngor drwy rannu gwybodaeth gyda thrigolion a sicrhau bod y strydoedd a mannau cyhoeddus yn cael eu cadw yn daclus ac yn lân;
- annog busnesau, trigolion ac ymwelwyr i waredu unrhyw wastraff bwyd yn gyfrifol ac yn ddiogel;
- cysylltu gydag ysgolion er mwyn addysgu plant am y poendod a achosir gan wylanod ac anifeiliaid eraill a'r angen i waredu gwastraff bwyd a sbwriel yn ddiogel. Rhagdybiwyd y byddai'r ymagwedd hon yn ddefnyddiol er mwyn cyfathrebu'r un neges i rieni ac ati gan y byddent hwy yn debygol o wrando ar farn eu plant ar faterion;
- Rhedeg cystadleuaeth dylunio poster drwy Raglen Cyfoethogi'r Gwasanaeth Addysg, gyda'r poster buddugol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymgyrch ymwybyddiaeth y Cyngor.

Rhannodd y Cynghorydd Anton Sampson boster gyda'r Pwyllgor oedd wedi cael ei ddefnyddio gan Gyngor Bwrdeistref Great Yarmouth mewn ymgais i annog pobl i waredu gwastraff bwyd ayb yn gyfrifol, tra rhannodd y Cynghorydd Brian Blakeley nifero gwynion a sylwadau roedd wedi eu derbyn gan drigolion.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol, Pennaeth Gwasanaeth, ac Arweinydd Tîm: Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd mai:

- gwastraff bwyd oedd y prif bryder gan ei fod yn atynnu gwylanod. Pe gellid lleihau mynediad at wastraff bwyd rhagdybir y byddai'r problemau a achosir gan wylanod yn lleihau;
- roedd archwiliadau dyletswydd gofal busnesau i sicrhau bod ganddynt gytundebau gwaredu gwastraff masnachol a'u bod yn defnyddio cynwysyddion gwrth bla ar gyfer gwastraff bwyd yn mynd rhagddynt. Roedd gwiriadau tebyg yn cael eu cynnal ar lefydd gwerthu bwyd yn ystod archwiliadau hylendid bwyd arferol. Ar hyn o bryd roedd ystyriaeth yn cael ei roi i a ddylid cynnwys diogelu gwastraff bwyd fel maes cydymffurfedd ar gyfer archwiliadau hylendid bwyd;
- mae gwaith glanhau stryd yn cael ei wneud yn rheolaidd mewn trefi arfordirol er mwyn ceisio lleihau faint o sbwriel sydd yno a chadw'r strydoedd a'r celfi stryd yn lân ac yn daclus;
- roedd heboga wedi ei ddefnyddio'n llwyddiannus mewn blynyddoedd diweddar i gadw gwylanod draw, effaith tymor byr yn unig oedd hynny ac unwaith roedd yr adar ysglyfaethus wedi mynd daeth y gwylanod yn ôl. Roedd heboga hefyd yn weddol ddrud ac felly ddim yn gynaliadwy yn y tymor hir;
- roedd y Cyngor yn bwriadu lloio LIC, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cael ymgyrch genedlaethol neu ranbarthol draws-sefydliadol ar reoli gwylanod a lliniaru risg, ac i ddeall patrwm ymddygiad y gwylanod er mwyn rhagweld eu patrymau bwydo esblygiadol.
- roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt gydag Adran Gyfreithiol y Cyngor ar hyfywedd cyflwyno is-ddeddfau neu Orchymynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus mewn perthynas ag atal bwydo'r gwylanod. Fodd bynnag, cyn y gallai'r Gwasanaeth ystyried mesurau o'r fath byddai angen darparu tystiolaeth ynglŷn â'r nifer gwirioneddol o gwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor ynglŷn â phobl yn bwydo gwylanod. Ar hyn o bryd mae'r nifer gwirioneddol o gwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor yn arbennig o isel, er bod swyddogion yn ymwybodol iawn o gwynion anecdotaidd yn ymwneud â bwydo'r gwylanod a'r problemau sy'n deillio o hynny. Byddwn yn adolygu hyfywedd o gyflwyno is-ddeddf neu Orchymynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus eto mewn 12 mis. Yn y cyfamser byddai angen i drigolion ac ymwelwyr gael gwybod am bwysigrwydd adrodd am unrhyw ddigwyddiadau i'w wneud â gwylanod wrth Ganolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid y Cyngor.
- roedd gan y Cyngor bwerau o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014 i gyflwyno Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol i unigolion oedd yn gor-fwydo adar. Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd y pŵer hwn yn aml. Y peth cyntaf fyddai'r Cyngor yn ei wneud fyddai ysgrifennu at yr unigolyn a'u cynghori bod cwynion wedi eu derbyn am eu hymddygiad a'i effaith ar eraill. Teimlwyd bod defnyddio dull argyhoeddiadol fel hyn yn fwy effeithiol yn y rhan fwyaf o achosion;
- roedd y defnydd o fagiau bin mewn ardaloedd penodol yn gwneud y broblem a achosir gan wylanod yn waeth, gan bod gwylanod yn cael eu denu ganddynt ac yn gallu eu rhwygo'n agored yn hawdd. Yn anffodus roedd sawl eiddo ac ardal yn y sir oedd ond yn gallu derbyn bagiau yn hytrach na biniau olwynion a chadis bwyd diogel oherwydd problemau mynediad i'r gwasanaeth casglu gwastraff. Dywedodd Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y byddai'n trafod gyda Phennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol i weld a oedd mwy o opsiynau 'gwaredu gwastraff' ar gael nawr ac a ellid cyflwyno'r

rhain i'r eiddo hyn ac a ellid ffitio clipiau i'r biniau olwynion cyfredol er mwyn diogelu eu cynnwys mewn tywydd garw neu i rwystro gwylanod a fermin rhag eu hagar;

- nid oeddynt yn ymwybodol o unrhyw un sy'n lobio Llywodraeth y DU er mwyn ceisio codi'r amddiffyniad cyfreithiol a roddir i 'wylanod';
- roedd defnyddio posteri cartŵn / llun at bwrpas codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn ddull effeithiol i ymgysylltu gyda phobl a'u haddysgu i ystyried newid eu harferion;
- roeddynt yn ymwybodol o'r broblem a achosir gan wylanod yn Ysgol y Castell, Rhuddlan, a'r gost o gyflwyno mesurau i fynd i'r afael â'r broblem. Cyn belled ag y gwyddant, digwyddiad unigol oedd hwn, ond cynigwyd gofyn i wasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladu'r Cyngor a fyddai'n gorfod talu am waith lleihau risg ar adeiladu ysgolion;
- byddai gwestai, carafanau a pharciau gwyliau yn cael eu cynnwys yn y gwaith codi ymwybyddiaeth gan y Tîm Cyfathrebu a Marchnata; a
- roedd y gwaith i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus yn allweddol os oedd y Cyngor am lwyddo i leihau faint o niwsans oedd yn cael ei achosi gan wylanod yn y sir. Byddai unrhyw ddyheadau oedd gan yr Awdurdod o ran cynyddu'r nifer o dwristiaid drwy weld bwytaf awyr agored ayb yn ffynnu yn dibynnu ar ostyngiad mawr yn y nifer o wylanod yn y sir;

Awgrymwyd hefyd yn ystod y drafodaeth y byddai'n werth cysylltu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn holi os oes ganddynt ystadegau ar faint o unigolion sydd wedi mynychu Adrannau Argyfwng neu Unedau Mân Anafiadau mewn ysbytaf lleol oherwydd anafiadau a achoswyd gan wylanod. Ar ddiwedd y drafodaeth:

Penderfynodd y Pwyllgor: - yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (i) hysbysu'r Aelod Arweiniol a swyddogion i gysylltu â Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Chyfoeth Naturiol Cymru i geisio eu hymrwymiad i weithio gyda'r Cyngor er mwyn rheoli a lliniaru'r risgiau a'r niwsans a achosir gan wylanod yn effeithiol;***
- (ii) bod yr ymgyrch ymwybyddiaeth i gynnwys cynhyrchu posteri a sticeri ayb i'w gosod ar lefydd bwyd ac ar finiau / cynwysyddion bwyd yn gofyn i bobl waredu eu gwastraff bwyd yn ddiogel;***
- (iii) os yn briodol, bod swyddogion yn defnyddio pwerau i gyflwyno Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol yn unol â Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014, i unigolion sy'n gor-fwydo adar ac sydd yn cael effaith negyddol ar drigolion eraill; a***
- (iv) bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ymhen deuddeg mis ar y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran datblygu a chyflawni'r Cynllun Gweithredu Rheoli Gwylanod a'r Ymgyrch Ymwybyddiaeth Gyhoeddus berthnasol.***

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy adroddiad y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd (a gylchredwyd eisoes) er mwyn diweddarau'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o safbwynt rhoi'r Cofrestr Rheoli Asedau Meysydd Parcio a'r Rhaglen Fuddsoddi ar waith. Hefyd yn yr adroddiad oedd manylion y cynnydd a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen Meysydd Parcio o ran datblygu mesurau i wella profiad ymwelwyr defnyddwyr meysydd parcio. Rhoddwyd trosolwg i Aelodau o'r amrywiol elfennau o'r gwaith a wnaed hyd yma fel rhan o ddatblygiad y Gofrestr Rheoli Asedau a'r Rhaglen Fuddsoddi arfaethedig (a amlinellir yn Atodiad B yr adroddiad) ac ar yr ymyraethau a nodwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen gan y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, dywedodd yr Aelod Arweiniol, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol a'r Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd:

- eu bod yn fodlon gyda'r cynnydd a wnaed wrth ddatblygu amrywiol agweddau o'r gwaith oedd angen ei wneud. Roedd cwblhau arolwg y meysydd parcio wedi cymryd cyfnod sylweddol o amser, ond roedd y rhan fwyaf o'r gwaith cynllunio bellach wedi ei gwblhau. Roedd Swyddogion wedi ymweld â phob Grŵp Ardal Aelodau er mwyn eu briffio ar y cynigion a cheisio eu cefnogaeth ar gyfer y cynlluniau;
- disgwyliad y byddai'n cymryd pum mlynedd i gwblhau'r rhaglen wella gyfan. Roedd y broses o'i rhoi ar waith yn ei chymau cynnar a dim ond oddeutu 12 peiriant talu ac arddangos newydd oedd wedi eu gosod hyd yma. Cyllideb Gwasanaeth Meysydd Parcio oedd yn talu am gost y gwaith hwn;
- roedd angen mwy o waith proffilio cyllideb ar gyfer y rhaglen fuddsoddi cyn ei datblygu fel Achos Busnes i'w gyflwyno i Grŵp Buddsoddi Strategol y Cyngor er mwyn ei gymeradwyo;
- byddai'r gwaith yn cael ei wneud fesul cam. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf byddai peiriannau talu ac arddangos cyfredol yn cael eu disodli gan beiriannau fyddai'n cymryd taliadau cerdyn ac yn cynhyrchu proffiliau data gwell o ddefnydd pob maes parcio. Byddai arwyddion mewn meysydd parcio yn cael eu gwella yn ystod camau cyntaf y cynllun gan y byddai hyn yn gwella'r profiad ymwelwyr drwy roi gwybodaeth glir o safbwynt ardaloedd arhosiad byr / arhosiad hir y meysydd parcio. Byddai gwelliannau mwy cosmetig h.y. goleuo a thirlunio yn cael eu huwchraddio yn ystod camau olaf y cynllun buddsoddi;
- roedd angen gwneud gwaith pellach er mwyn asesu effaith rhai o'r ymyraethau a gyflwynwyd gan Grŵp Tasg a Gorffen Meysydd Parcio h.y. tocynnau talu ac arddangos y gellir eu trosglwyddo rhwng meysydd parcio arhosiad hir ar draws y sir, trwyddedau parcio di bapur ayb;
- roedd y cynllun buddsoddi yn cynnwys buddsoddiad o £1.3 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd mewn 44 o'r meysydd parcio yr oedd y Sir yn berchen arnynt. Tra roedd y cynllun yn hyblyg, byddai gwaith yn cael ei gyflawni ar ôl ymarfer blaenoriaethu;
- byddai cytundeb y Cyngor am beiriannau talu ac arddangos sy'n derbyn taliad dros y ffôn yn rhedeg am ddwy flynedd arall. Fodd bynnag doedd yr adnodd yma ddim yn cael ei defnyddio yn aml, felly byddai'r peiriannau talu ac arddangos o bosib yn cael eu disodli gan beiriannau sy'n darparu swyddogaethau gwahanol pan fyddai'r contract yn dod i ben;

- ni fyddai'r gwaith ailwampio i'w gwblhau ar y maes parcio tanddaearol yn y Rhyl yn ffurfio rhan o'r cynllun buddsoddi hwn. Roedd yr achos busnes ar gyfer y gwaith hwnnw wedi ei gymeradwyo yn ddiweddar gan Grŵp Buddsoddi Strategol a Chabinet y Cyngor;
- nod y Cynllun Buddsoddi Meysydd Parcio pum mlynedd o hyd yw cynnal a chadw a gwneud gwaith uwchraddio ar feysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor ar hyn o bryd, byddai angen selio unrhyw gynlluniau i newid adnoddau parcio ceir neu gynnydd mewn capasiti yn unrhyw ran o'r ardal ar achos busnes ar wahân, y byddai'n rhaid i'r Grŵp Buddsoddi Strategol ei gymeradwyo.
- Roedd Sir Ddinbych wedi dewis modelau mwy newydd gan Parkeon i ddisodli ei beiriannau talu ac arddangos. Roedd Parkeon yn cael eu hadnabod fel cyflenwr peiriannau talu ac arddangos dibynadwy gyda nifer fawr o awdurdodau lleol yn dewis gosod eu peiriannau. Tra roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi dewis parhau i'w defnyddio roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi defnyddio cyflenwr gwahanol. Prynwyd y peiriannau talu ac arddangos newydd yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor a'r rheolau caffael cenedlaethol. Drwy gadw at y rheolau a'r gweithdrefnau hyn roedd y Cyngor yn elwa o arbedion maint ar brisiau nwyddau.
- Bu ymgynghori ar y cynigion yn y Rhaglen Fuddsoddi gyda'r 6 Grŵp Ardal Aelodau, ni ymgynghorwyd ar y cynigion gydag chynghorau dinas, tref a chymuned.
- byddai trwyddedau di bapur yn golygu bod angen i Swyddogion Gorfodi Dinesig sganio neu fewnbynnu rhifau platiau ceir gan ddefnyddio teclynnau cleddr llaw i wirio bod trwydded wedi ei phrynu ar gyfer y cerbyd penodol hwnnw;
- roedd angen gwneud gwaith pellach o safbwynt y math o system a fyddai ei hangen i alluogi defnyddwyr meysydd parcio i brynu trwyddedau parcio hyblyg ac ar ddulliau talu am drwyddedau o'r fath.
- bu gostyngiad mewn incwm meysydd parcio eleni. Byddai angen ystyried y tebygolrwydd o ostyngiad incwm pellach yn y dyfodol wrth benderfynu ar faint o fenthycas darbodus oedd ei angen er mwyn cyllido'r gwelliannau, er mwyn lleihau'r risg o greu pwysau cyllidol yn y dyfodol.
- byddai gwaith gorfodi sifil oedd yn ymwneud â'r meysydd parcio yn y sir yn niwtral o ran cost.

Cyn dod â'r drafodaeth i ben apeliodd y Cynghorydd Arwel Roberts ar ei Reolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd am ei gymorth i ddatrys mater yn Rhuddlan oedd yn ymwneud â throsglwyddo maes parcio i berchnogaeth y cyngor sir.

Penderfynodd y Pwyllgor: - yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (i) ***gefnogi parhad y gwaith i roi'r Gofrestr Rheoli Asedau Meysydd Parcio, y Rhaglen Fuddsoddi a gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Meysydd Parcio ar waith a chyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor mewn 12 mis ar y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu, gweithredu a chyflawni holl elfennau'r Gofrestr, y Rhaglen Fuddsoddi a'r mentrau a nodwyd gan Grŵp Tasg a Gorffen y Meysydd Parcio.***

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy adroddiad y Rheolwr Perygl Llifogydd (a gylchredwyd eisoes) oedd yn nodi darganfyddiadau'r ymchwiliad i'r llifogydd yng ngogledd y sir ar 19 Gorffennaf 2017. Yn atodol i'r adroddiad oedd copi o'r adroddiad terfynol a gynhyrchwyd yn unol ag Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. O dan ddarpariaethau'r Ddeddf roedd angen i'r Cyngor ymchwilio, paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn mewn ymateb i achosion o lifogydd o fewn ei ffiniau daearyddol.

Amlinellodd y Rheolwr Perygl Llifogydd ddyletswyddau'r cyngor o safbwynt ymchwilio i'r llifogydd a ddigwyddodd, a dywedodd mai dim ond unwaith mewn 50 mlynedd y byddai disgwyl i faint o law a gwmpodd yng ngogledd y sir ar 19 Gorffennaf 2017 gwmpo mewn diwrnod. Aeth ymlaen i amlinellu'r broses o ymchwilio achos a maint y llifogydd, a dywedodd ei fod wedi cymryd cryn dipyn o amser i gasglu a dadansoddi'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd oherwydd yr ardal daearyddol eang a effeithiwyd. Daeth yr ymchwiliad i'r canlyniad mai achos y llifogydd oedd digwyddiad glawog oherwydd nad oedd gormod o ddŵr wyneb yn gallu mynd i'r systemau draenio a charthion yn ddigon cyflym i'w alluogi i ddraenio i ffwrdd. Roedd faint o law a gwmpodd y diwrnod hwnnw yn fwy na'r capasiti sydd o fewn y systemau draenio a charthion lleol i lifo'n gyson. Aeth y diffyg capasiti hwn yn waeth oherwydd rhwystrau mewn pibellau ac oherwydd problemau mewn gorsafoedd pwmpio, cyfrifoldeb Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) oedd y ddau beth yma. Pwysleisiodd y Rheolwr Perygl Llifogydd bod DCWW a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Cyngor wrth gyflawni'r gwaith o ymchwilio i'r llifogydd a dywedodd yr Aelod Arweiniol wrth y Pwyllgor bod y swyddog wedi adeiladu perthynas waith dda gyda'r ddau sefydliad, ac roedd y ddau yn derbyn bod gan yr holl bartneriaid gyfrifoldebau o ran rheoli perygl llifogydd yn yr ardal hon.

Manylodd aelodau o ardal y Rhyl am nifer o broblemau hir dymor yn ymwneud â llifogydd yn ardal y Rhyl gan gynnwys cambr y ffordd yn Ffordd Derwen, dŵr yn llifo oddi ar gaeau chwarae Ysgol Dewi Sant, tipio anghyfreithlon ar dir y mae Network Rail yn berchen arno a phroblemau gyda draeniau a ffosydd cerrig y mae'n berchen arnynt, problemau ar Ffordd Elan a chae newydd Clwb Rygbi'r Rhyl. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol bod achos nifer o'r problemau hyn yn gymhleth iawn. Oherwydd y cymhlethdodau roedd y Cyngor wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflawni astudiaeth fanwl i'r math o waith fyddai ei angen i wella'r sefyllfa. Er hynny, ni allai neb roi sicrwydd pendant na fyddai digwyddiad o'r fath yn fyth yn digwydd eto, y cwbl oedd modd ei wneud oedd lleihau'r perygl o lifogydd yn y dyfodol. Disgwylir canlyniadau'r astudiaethau draenio yn Ffordd Derwen, y Rhyl ym mis Medi 2018. Yn yr un modd, disgwylir canlyniadau'r cydweithio a fu rhwng DCWW a Chyfoeth Naturiol Cymru, i ymchwilio a ellid gwella rheolaeth Ffos Y Rhyl a Gwter Prestatyn yn ogystal â'r draeniau a'r carthffosydd cyfagos, tua'r un pryd.

Gan ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd y swyddogion:

- Roedd DCWW yn cynnal astudiaeth i ardal Bro Berllan Rhuddlan er mwyn deall maint y llifogydd a'r problemau draenio yno;
- Roedd cafnau roedd y Cyngor yn berchen arnynt yn cael eu gwagu o leiaf unwaith y flwyddyn, gyda'r rheiny oedd yn achosi problemau yn cael eu gwagu'n fwy rheolaidd. Os oedd aelodau'n ymwybodol o gafnau a allai

gynyddu'r perygl o lifogydd neu oedd angen eu gwagu dylent gysylltu â'r Ganolfan Gwasanaeth i Gwsmeriaid i adrodd am y mater;

- roedd y Cyngor yn cymryd achosion o dipio anghyfreithlon o ddifrif ac yn gwneud pob ymdrech i weithio gyda'r troseddwy'r er mwyn eu haddysgu am y problemau maent yn eu hachosi a'r costau cysylltiedig.
- tra cyflwynwyd cynigion ar gyfer darparu carthffosydd ar wahân ar gyfer dŵr carthion a dŵr wyneb pan gafodd cwmnïau dŵr eu preifateiddio a bod DCWW wedi bod yn cynllunio i gyflwyno'r rhain ers peth amser, doedd swyddogion Cyngor ddim yn ymwybodol fod unrhyw gynllun o'r fath wedi ei roi ar waith yn Sir Ddinbych hyd yn hyn.
- o safbwynt cynnal a chadw ffosydd a glannau afonydd, roedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru bwerau i wneud y math hwn o waith nid oedd cwblhau'r gwaith yn ddyletswydd ar Gyfoeth Naturiol Cymru, fel arfer cyfrifoldeb perchennog glannau'r afon oedd cwblhau'r gwaith cynnal a chadw; a
- roedd staff o'r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol yn gweithio'n agos gyda staff y Gwasanaeth Addysg er mwyn lliniaru'r perygl o lifogydd a thywydd garw i ysgolion a disgyblion

Ar ddiwedd y drafodaeth:

Penderfynodd y Pwyllgor: - yn amodol ar y sylwadau uchod:

- ofyn i swyddogion adrodd ar ddarganfyddiadau'r astudiaeth ddraenio a ariannwyd gan grant Llywodraeth Cymru yn Ffordd Derwen, y Rhyl, wrth Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad yn ystod hydref 2018;***
- gofyn i swyddogion fynychu cyfarfodydd Grwpiau Ardal Yr Aelodau yn Elwy, Prestatyn a'r Rhyl er mwyn trafod materion yn ymwneud â pherygl llifogydd; ac***
- holi a ellid adrodd am ganfyddiadau'r astudiaeth a wnaed ar y cyd rhwng Dŵr Cymru Welsh Water a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gweld a ellid gwneud gwelliannau i reolaeth Ffos Y Rhyl a Gwter Prestatyn, draeniau a charthffosydd cyfagos, wrth y Pwyllgor pan fydd wedi ei orffen, a bod cynrychiolwyr o'r ddau sefydliad yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod i drafod y canfyddiadau ac amlinellu cyfrifoldeb pob sefydliad o ran rheoli a lliniaru llifogydd.***

9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Archwilio adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) sy'n gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol –

- ail-gadarnhawyd y tair eitem ar y rhaglen gwaith ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor, a chytunwyd i wahodd yr Aelodau Cabinet Arweiniol perthnasol i'r cyfarfod hwnnw;
- nododd aelodau bod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio wedi cyfarfod i ystyried nifer o eitemau posibl i fod yn destun archwilio, a oedd wedi eu cynnwys ar raglen waith y Pwyllgor;

- anogwyd aelodau i gwblhau'r holiadur Archwilio a oedd wedi ei gylchredeg, er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd Archwilio;
- eglurodd y Cydlynnydd Archwilio wrth aelodau bod newid yn aelodaeth y Pwyllgor Archwilio Cymunedau wedi creu sedd wag ar Grŵp Herio'r Gwasanaeth Ariannol. Ceisiwyd penodiad aelod er mwyn cynrychioli'r Pwyllgor, enwebodd y Cynghorydd Timms y Cadeirydd, y Cynghorydd Huw Williams i gynrychioli Archwilio. Roedd y Pwyllgor i gyd yn cytuno â'r penodiad.
- cyfeiriwyd at friff gwybodaeth y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf; ynghyd â gwybodaeth bellach yn ôl y gofyn

Felly:

Penderfynwyd: - cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor yn amodol ar yr uchod

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Adroddodd gynrychiolwyr y Pwyllgor ar eu presenoldeb mewn cyfarfodydd fel a ganlyn -

Roedd y Cynghorydd Graham Timms wedi mynychu'r Her Gwasanaeth ar Gyfer Adnoddau, Asedau a Thai a nododd fod adroddiad diweddar wedi ei gynnwys yn y briff diweddar gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.15pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	17 Mai 2018
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Rheolwr Perfformiad a Chontractau, Cyllid
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Prosiect Perfformiad a Chontractau, Cyllid
Teitl:	Credyd Cynhwysol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Yr effeithiau tebygol o gyflwyno Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol ar wasanaethau'r Cyngor ac ar breswylwyr y Sir a'r cynllunio a'r paratodau sydd wedi'u gwneud hyd yma.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnodd yr Aelodau am yr adroddiad hwn i ddarparu gwybodaeth am:

- yr effaith y rhagwelir ar wasanaethau'r Cyngor a phreswylwyr yn ystod camau cychwynol cyflwyno'r Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol yn Sir Ddinbych.
- y mesurau sydd wedi'u cymryd hyd yma i baratoi gwasanaethau a phreswylwyr i ddelio gyda'r newidiadau.
- y cynlluniau arfaethedig ar gyfer gweddill y cyflwyniad a throsglwyddiad hawlwr budd-daliadau presennol i'r Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol maes o law.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Ystyried cynnwys yr adroddiad, rhoi sylwadau a pharhau i gefnogi gwaith parhaus y Bwrdd Credyd Cynhwysol i ddeall a rheoli'r effeithiau ar wasanaethau'r Cyngor a phreswylwyr Sir Ddinbych.

4. Manylion yr Adroddiad

Cefndir

Mae Credyd Cynhwysol yn rhan o raglen diwygio lles Llywodraeth y DU ac yn drawsnewidiad llwyr o'r system fudd-daliadau bresennol. Mae'n fudd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd sydd ar gael gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer pobl o oed gweithio sydd un ai yn gweithio ar incwm isel neu ddim yn gweithio. Mae'n disodli'r chwe phrif fudd-daliadau/credydau treth ar gyfer y rheiny o oed gweithio ac yn cyfuno'r holl fudd-daliadau i greu un taliad unigol misol i'r aelwyd.

Nod Llywodraeth y DU yw cael system symlach gydag un budd-dal yn hytrach na llawer; sicrhau fod pobl yn well yn ariannol os ydynt yn gweithio yn hytrach nac ar fudd-daliadau; creu adlewyrchiad gwell o'r byd gwaith ac annog cyfrifoldeb ariannol.

Cychwynnodd y Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol yn ne Sir Ddinbych ym mis Hydref 2017 ac yng ngweddill Sir Ddinbych ym mis Ebrill 2018.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynllunio trosglwyddiad llawn o'r holl hawlwr budd-dal *presennol* o oed gweithio ar draws y DU erbyn 2022. Fodd bynnag nid yw'r dyddiad cychwyn eto'n hysbys a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i egluro'r effaith a'r amserlenni ar gyfer Sir Ddinbych.

Ystyriaethau ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych

Mater Allweddol: Rydym nawr yn y cam Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol ar gyfer hawlwr newydd a'r rheiny sydd â newid mewn amgylchiadau yn effeithio ar eu statws budd-daliadau. Mae hyn yn gofyn am gyfnod o addasu ar gyfer hawlwr a'r holl asiantaethau a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi ac yn ymgysylltu â hwy. Mae'n anochel y bydd hyn yn cynnwys sawl maes o'r Cyngor.

Dyma rai enghreifftiau o'r newidiadau i breswylwyr:-

- Gwasanaeth digidol llawn. Mae hawlwr yn hawlio ac yn rheoli eu cyfrifon ar-lein gyda chefnogaeth gan Llyfrgelloedd Sir Ddinbych / Siopau Un Alwad
- Ôl- daliadau misol
- Un taliad i'w dalu i gyplau
- Hawliadau costau tai yn cael eu gweinyddu drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau o dan Wasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol, yn hytrach na budd-dal tai drwy'r awdurdod lleol
- Bydd yr elfen costau tai fel arfer yn cael ei thalu'n uniongyrchol i'r hawlwr yn hytrach na'n uniongyrchol i'w landlord.

Dyma rai meysydd allweddol o effaith ar wasanaethau'r Cyngor:-

- Cynnydd yn y galw am gyngor a chymorth o feysydd megis Cyngor ar Bopeth, Llyfrgelloedd / Siopau Un Alwad, Refeniw / Budd-daliadau a'r Tîm Atal Digartrefedd.
- Effaith ar brosesau presennol o fewn Refeniw / Budd-daliadau. Mae prosesau presennol yn gweithio'n dda ac wedi derbyn sgôr sicrwydd uchel gan archwilio ac adolygiad diweddar gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (atodiad 1). Bydd rhaid i newidiadau i'r broses a'r effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth gael eu rheoli'n ofalus.
- Efallai y bydd rhai gwasanaethau megis Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Addysg a Phlant yn gweld effaith ar breswylwyr diamddiffyn a'u teuluoedd.
- Pwysau ar Dai a Chyllid gyda mwy o breswylwyr yn cael trafferth talu rhent ar denantiaethau tai a thalu Treth y Cyngor.

Paratoi ar gyfer Credyd Cynhwysol

Email briefing - part 2 - Denbighshire Full Service 11th April	Elected members, City, Town & Community Cllrs	Reminder of UCFS and the support available so elected members able to respond to Denbighshire residents	9th April 2018	Completed
Contact Centre Team Meeting	DCC Contact Centre Staff	Provide an overview of UC and overview of support mechanisms for customers	10th April 2018	Completed
Payslips	DCC staff impacted personally by UC	To promote support mechanisms in place for staff including schools	April 2018 payslips	Completed
DCC website - 'spotlight' on UC webpage for 11th April	Residents in Denbighshire	To promote support mechanisms in place for residents	10th April 2018 onwards	Completed
Denbighshire Full Service 11th April - Soft press release via social media	Residents in Denbighshire	To alert relevant residents to the support available	11th April 2018	Completed
Denbighshire Today	DCC staff impacted personally by UC	To promote support mechanisms in place for staff	11th April 2018 (+ additional dates in April)	Completed
Standing agenda item at DCC Tackling Poverty Operational Group	Tackling Poverty Operational Group members - key internal and external partners engaged in tackling poverty	Update on the UC Board, latest UC updates and further develop collaborative working in the context of the wider government welfare reform	Ongoing	Ongoing
Briefing for Lead Member	Lead Member	Additional briefing on UC for Lead Member, to provide latest updates on the following - UC Board, possible impact on DCC services and residents and actions / preparations taken to date	17th April 2018	Completed

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	17 Mai 2018
Aelod/Swyddog Arweiniol: Cyhoedd	Arweinydd/ Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y
Awduron yr Adroddiad:	Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd/ Arweinydd Tîm - Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau
Teitl:	Strategaeth Arwyddion Twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Rhoi diweddariad ar ddatblygiad cychwynnol strategaeth arwyddion twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Ym mis Tachwedd 2017 cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ynglŷn â phrosiect arwyddion twristiaeth Dyffryn Clwyd. Cynhaliwyd trafodaethau yn y Pwyllgor ynghylch sut y dylid datblygu strategaeth arwyddion twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych i ategu at yr arwyddion twristiaeth ar gefnffyrdd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad, yn rhoi sylwadau, ac yn cefnogi parhad y gwaith i ddatblygu strategaeth arwyddion twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych.
- 3.2 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn Atodiad A fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr Adroddiad

Cyflwyniad

- 4.1 Ym mis Tachwedd 2017 cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i ddarparu diweddariad ynglŷn â phrosiect arwyddion twristiaeth Dyffryn Clwyd. Un o'r eitemau a drafodwyd yn adroddiad Tachwedd 2017 yw'r meini prawf y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio ar gyfer arwyddion cyrchfannau twristiaeth oddi ar eu rhwydwaith cefnffyrdd. Trafododd y pwyllgor y meini prawf hwn a'r angen i ddatblygu strategaeth arwyddion twristiaeth ar gyfer Sir Ddinbych a fyddai'n ategu at yr arwyddion twristiaeth ar gefnffyrdd. Darperir copi o adroddiad Tachwedd 2017 yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.
- 4.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw trafod barn gychwynnol swyddogion ar gynnwys y strategaeth arwyddion twristiaeth arfaethedig, i'w drafod gan y Pwyllgor Craffu

Cymunedau. Y bwriad yw y bydd gweithgor o swyddogion ac aelodau etholedig yn cael ei ffurfio i ddatblygu'r strategaeth arwyddion twristiaeth, gan ystyried y gwaith a wnaed hyd yma a barn y Pwyllgor Craffu.

- 4.3 Fel yr eglurwyd yn adroddiad Tachwedd 2017, fel arfer mae'n ddrud darparu arwyddion twristiaeth ar ffyrdd cyflym megis yr A55 oherwydd maint yr arwyddion sy'n ofynnol er mwyn iddynt gael eu darllen gan yrwyr mewn digon o amser. Mae hefyd yn bwysig lleihau gormodedd o arwyddion er mwyn peidio â gorlwytho gyrwyr â gwybodaeth. Fel y cyfryw, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio meini prawf cymhwysedd caeth ar gyfer arwyddion twristiaeth cefnffyrdd sydd felly yn cyfyngu ar ba gyrchfannau twristiaeth sy'n cael arwyddion ar y rhwydwaith cefnffyrdd.
- 4.4 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu "*Ffordd Cymru*", sef prosiect deng mlynedd sydd wedi'i anelu at hyrwyddo tri llwybr twristiaeth "craidd" lle bydd y ffocws ar brofiad y daith ei hun, yn hytrach na bod y daith yn fodd o "fynd o A i B". Ceir rhagor o fanylion am *Ffordd Cymru* yn Atodiad C i'r adroddiad hwn. Mae tri llwybr craidd *Ffordd Cymru* fel a ganlyn:
- Ffordd Gogledd Cymru - yn dilyn yr A55
 - Ffordd y Cambrian - yn dilyn yr A470
 - Ffordd yr Arfordir - yn dilyn yr A487
- 4.5 Mae Llywodraeth Cymru yn datgan mai un o egwyddorion Ffordd Cymru yw y bydd y llwybrau craidd yn annog tripiâu oddi ar y prif lwybr, gyda thaith enghreifftiol o 40 munud yn cael ei roi.

Y Strategaeth Arwyddion Twristiaeth Arfaethedig

- 4.6 Gan ystyried y ffactorau uchod, mae cyfle go iawn i ddatblygu strategaeth arwyddion twristiaeth sy'n gallu ategu at arwyddion i dwristiaid ar gefnffyrdd. Er enghraifft, bydd cynllun arwyddion twristiaeth arfaethedig Dyffryn Clwyd yn cyfeirio ymwelwyr i Gastell Dinbych, Castell Rhuddlan a Chadeirlan Llanelwy oddi ar yr A55 ac ar yr A525. Bydd hyn yn ei dro yn gyfle i gyfeirio ymwelwyr oddi ar yr A525 ac ar lwybrau eraill a chyrchfannau twristiaeth eraill o gwmpas y Sir na fyddai'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cael arwyddion ar eu cyfer ar yr A55 neu'r cefnffyrdd eraill.
- 4.7 Gyda hyn mewn golwg, ac wrth ystyried nodau prosiect *Ffordd Cymru*, gallwn adeiladu ar brosiect arwyddion twristiaeth arfaethedig Dyffryn Clwyd i ddatblygu "ffyrdd twristiaeth" (h.y. llwybrau twristiaeth) sy'n dod yn atyniad yn eu hawlfraint eu hunain oherwydd ein golygfeydd gwych lleol, tra hefyd yn rhoi'r cyfle i gyfeirio ymwelwyr i gyrchfannau twristiaeth llai eraill. Gallai'r llwybrau hyn fod yn gylch ac fe allent groesi ffiniau traws sirol, gan yn aml efallai y byddai'n rhesymegol iddynt wneud hynny, yn dibynnu ar y llwybrau ffisegol dan sylw.
- 4.8 Un o dasgau cyntaf y gweithgor swyddogion ac aelodau etholedig ar gyfer y strategaeth arwyddion twristiaeth ddrafft fydd datblygu'r llwybrau twristiaeth posibl hyn ymhellach.

Ymagweddau amgen

- 4.9 Mae'n bwysig cydnabod bod y strategaeth arwyddion twristiaeth arfaethedig hefyd yn gyfle i ystyried dulliau eraill o sut y gallwn gyfeirio ymwelwyr at atyniadau yn hytrach

na dim ond trwy arwyddion ffyrdd brown traddodiadol. Rhestrir y rhain yn y paragraffau canlynol.

- 4.10 Ariennir arwyddion enwau dinas, tref a phentref newydd gan y cyngor dinas, tref neu gymuned priodol. Tra bod cynllun sylfaenol arwyddion o'r fath yn cael ei ragnodi gan Reoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2016, mae rhywfaint o le i amrywio negeseuon a chriblin, er enghraifft. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod cyngor tref neu bentref yn talu am yr arwydd(ion) yn golygu bod rhywfaint o amrywiad mewn arwyddion enwau presennol ar draws y Sir. Un o'r opsiynau mae swyddogion yn teimlo y dylid eu hystyried yn awr yw datblygu brand ar gyfer yr arwyddion hyn a fyddai'n gyson ar draws y Sir, ac i gwmpas y brandio hwn fod yn gyson â'r arwyddion cyfeirio twristiaeth. Byddai hyn yn gofyn am ymgysylltu â chynghorau dinas, tref a chymuned i drafod templed.
- 4.11 Bydd angen archwilio'r defnydd o atebion technolegol er mwyn deall yn well beth yw'r potensial ar gyfer dulliau eraill i gyfeirio ymwelwyr at atyniadau twristiaeth (neu ar hyd llwybrau twristiaeth). Un enghraifft, o dechnoleg newydd o'r fath yw "iBeacons". Mae "iBeacons" yn gweithio o ran bod goleufannau'n cael eu gosod mewn lleoliadau addas sy'n "negesu" (trosglwyddo) i ffonau clyfar pobl, sydd wedi'u galluogi i dderbyn y fath wybodaeth. Gellir cynllunio hyn i roi gwybodaeth sy'n sensitif i'r cyd-destun a allai gynnwys gwybodaeth am gyrchfannau twristiaid cyfagos. Nid mater o ffuglen wyddoniaeth yw hi i ystyried y bydd cynorthwywyr personol yn fuan (fel "Alexa" Amazon) yn ein cerbydau ein hunain, y gellir gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth ar unwaith fel adroddiadau tywydd, gwybodaeth am draffig a gwybodaeth am y gyrchfannau twristiaid agosaf.
- 4.12 Mae'n debygol y bydd ymgyrchoedd marchnata cyfryngau cymdeithasol a marchnata digidol yn parhau i chwarae rhan gynyddol o ran codi ymwybyddiaeth pobl o ba gyrchfannau twristiaid sy'n bodoli a lle maent wedi'u lleoli.

Costau

- 4.13 Mae'n bwysig nodi mai gweithredwyr cyrchfan dwristiaeth sydd fel arfer yn talu am gynlluniau arwyddion twristiaeth brown. Ar ben hynny, tra bod cost mân atgyweiriadau yn cael eu cwmpasu, nid oes gan y Cyngor gyllideb ar gyfer ailosod arwyddion twristiaeth brown presennol os bydd un yn cael ei ddifrodi'n ddiangen a bod angen ei ailosod.

Crynodeb

- 4.14 Cynigir mai'r cam nesaf yw ffurfio gweithgor swyddogion ac aelodau etholedig ac i ddechrau datblygu'r llwybrau arfaethedig.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Amgylchedd: Deniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd. Byddai'r strategaeth arwyddion twristiaeth arfaethedig yn cyfrannu tuag at yr amcan "Codi proffil y sir fel lleoliad i ymweld ag o, er mwyn manteisio ar botensial economaidd Sir Ddinbych."

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Bydd y strategaeth arwyddion twristiaeth arfaethedig yn cael ei datblygu gan weithgor sy'n cynnwys aelodau etholedig a swyddogion o'r Adain Draffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd; Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau; Gwasanaethau Cefn Gwlad; a Datblygu Economaidd a Busnes. Bydd costau swyddogion yn cael eu talu o'r cyllidebau gwasanaeth presennol ar y cam hwn. Wrth gwrs, bydd costau'n gysylltiedig â'r amrywiol ymyriadau a nodwyd gan y strategaeth a bydd angen datblygu'r rhai hynny ymhellach ar ffurf achos busnes pan fyddant yn datblygu.
- 6.2 Nid oes unrhyw arwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn rhyddhau unrhyw gyllid ychwanegol o ganlyniad i brosiect *Ffordd Cymru*.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- 7.1 Yn gyffredinol, ychydig iawn o effeithiau negyddol fydd yn deillio o'r strategaeth arwyddion twristiaeth arfaethedig. Fodd bynnag, mae nifer o effeithiau cadarnhaol o ran y manteision posibl i'r economi leol a'r cynnydd posibl mewn niferoedd ymwelwyr.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?

- 8.1 Cynhyrchwyd y cynnig ar gyfer Strategaeth Arwyddion Twristiaeth trwy drafodaethau yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau fis Hydref 2017. Bydd cyflwyno'r adroddiad cyfredol hwn ym Mhwyllgor Craffu Cymunedau Mai 2018 yn rhoi cyfle arall i'r aelodau roi eu barn ar y strategaeth arfaethedig. Yna bydd y strategaeth yn cael ei datblygu ymhellach trwy ffurfio gweithgor swyddogion ac aelodau etholedig.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1 Mae'r gwasanaeth wedi cadarnhau yn yr adroddiad hwn y gellir cynnwys datblygiad y strategaeth arwyddion o fewn yr adnoddau presennol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw adnoddau cymeradwy i ariannu goblygiadau'r strategaeth a bydd angen ystyried unrhyw geisiadau am arian yng nghyd-destun lleihau cyllid i'r cyngor ac ymrwymiad ehangach y cyngor i geisio ariannu'r Cynllun Corfforaethol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1 Gallai methiant i ddatblygu strategaeth arwyddion twristiaeth addas gynrychioli cyfle sylweddol a gollwyd. Bydd y strategaeth arfaethedig yn helpu i gydlynu ymdrechion y Cyngor mewn perthynas ag arwyddion twristiaeth ar draws gwasanaethau ac i gynorthwyo manteisio ar y cyfle a gyflwynir gan brosiect *Ffordd Cymru Llywodraeth Cymru*.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- 11.1 Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n nodi grymoedd Craffu o ran datblygu polisi.

Swyddogion Cyswilt: Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd, Rhif Ffôn: 01824 706959 a Arweinydd Tîm Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau Rhif Ffôn: 01824 706152

Tourism signage strategy

Wellbeing Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of a proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number:	417
Brief description:	A proposed tourism signage strategy that is aimed at complementing the existing (and proposed) trunk road tourism signage
Date Completed:	Version: 0
Completed by:	
Responsible Service:	Planning & Public Protection
Localities affected by the proposal:	Whole County,

IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

Score for the sustainability of the approach

Could you do more to make your approach more sustainable?




(2 out of 4 stars)

Actual score : 15 / 24.

Summary of impact

Wellbeing Goals



Main conclusions

THE LIKELY IMPACT ON DENBIGHSHIRE, WALES AND THE WORLD

A prosperous Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	The economic benefits mean that there is a positive impact overall.

Positive consequences identified:

Brown tourism direction signs help direct traffic to their destination and avoid wasted mileage due to motorists being "lost" and unable to find their intended destination.

The proposed strategy is intended to benefit local tourist attractions especially those that would not qualify for signs on the trunk road network because, for example, their visitor numbers are too low to meet the WG criteria

Increased visitor numbers to local tourist destinations will benefit attractions (e.g. castles and historic houses) and tourist facilities (e.g. hotels). These benefits could potentially create additional jobs.

Well-designed signage can improve the transport network

Unintended negative consequences identified:

One part of the strategy is to develop circular tourist trails where the journey is part of the attraction. This is likely to increase mileage.

Mitigating actions:

A resilient Denbighshire

Overall Impact	Neutral
Justification for impact	There are a fairly even balance of positive and negative impacts.

Positive consequences identified:

Better signage can result in less wasted mileage (and fuel) spent searching for attractions

Where attractions are related to the natural environment, more visitors would result in more people being aware of the issues that affect that element of the natural environment

Unintended negative consequences identified:

Increased traffic on less-well trafficked routes could have a slight detrimental impact biodiversity through increased noise, pollution etc.

Signing tourist trails is likely to increase mileage as some of the routes are circular with the focus being the journey experience of the route itself.

Mitigating actions:

Judicious choice of tourist trails could help to minimise any negative impacts.

A healthier Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	Potential increase in leisure activities

Positive consequences identified:

Some attractions that are signed could be leisure/activity related - therefore increased visitor numbers could equate to increased leisure participation

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

A more equal Denbighshire

Overall Impact	Neutral
Justification for impact	n/a

Positive consequences identified:

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

n/a

A Denbighshire of cohesive communities

Overall Impact	Neutral
Justification for impact	There are both positives and negatives to the potential attractiveness of the area.

Positive consequences identified:

Increased visitor numbers may enable investment and improvements to tourist destinations.

Unintended negative consequences identified:

Increased traffic signs could have a negative impact on the natural beauty of an area.

Mitigating actions:

Careful sighting of tourism signs

A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language

Overall Impact	Positive
Justification for impact	Increased visitor numbers to attractions that promote Welsh culture and heritage.

Positive consequences identified:

Promoting increased visitor numbers to tourist attractions which promote Welsh culture and heritage will benefit and allow re-investment in those attractions.

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

A globally responsible Denbighshire

Overall Impact	Neutral
Justification for impact	N/A

Positive consequences identified:

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

N/A

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	30 Tachwedd 2017
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Arweinydd/Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd
Teitl:	Arwyddion cyfeiriad i dwristiaid ar gyfer Dyffryn Clwyd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae'r adroddiad am brosiect parhaus i ddatblygu cynllun arwyddion cyfeiriad i dwristiaid ar gyfer Dyffryn Clwyd, ac i egluro'r broses o wneud cais am arwyddion cyfeiriad i dwristiaid ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn gyffredinol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Gofynnodd Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio am ddiweddariad ar brosiect Dyffryn Clwyd a bod gwybodaeth yn cael ei rhoi am y broses ymgeisio'n gyffredinol, fel bod y Pwyllgor yn gallu deall y potensial i ehangu ar y cynllun i gynnwys cefnffyrdd eraill.
- 2.2 Yn unol â'r cais gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio, gwahoddwyd Isadran Rheoli Rhwydweithiau Llywodraeth Cymru i anfon cynrychiolydd i fod yng nghyfarfod y Pwyllgor i ateb cwestiynau am y broses ymgeisio. Yn anffodus, gwrthodwyd y cais hwn.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

- 3.1 ystyried y cynnydd hyd yn hyn ar brosiect arwyddion cyfeiriad i dwristiaid Dyffryn Clwyd ac yn rhoi sylwadau ar y cynigion; a
- 3.2 chydabod meini prawf cymhwyso Llywodraeth Cymru am ddarparu arwyddion twristiaid brown ar gefnffyrdd, a rhoi sylwadau.

4. Manylion yr adroddiad

Cyflwyniad

- 4.1 Arwyddion brown gyda thestun gwyn yw arwyddion cyfeiriad i dwristiaid a ddefnyddir i gyfarwyddo gyrwyr i Gyrchfan Twristiaid yng nghymalau olaf eu taith.
- 4.2 Mae Cyrchfannau Twristiaid yn cael eu dosbarthu fel Atyniadau i Dwristiaid neu'n Gyfleusterau i Dwristiaid.

- 4.3 Mae Atyniadau i Dwristiaid yn fannau o ddi-ddordeb sy'n agored i'r cyhoedd, ac sy'n gyffredinol yn cynnig diddordeb hamdden, hanesyddol neu addysgol. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys cestyll, sŵau, parciau thema, amgueddfeydd, theatrau a meysydd golff, i enwi ond rhai.
- 4.4 Mae Cyfleusterau i Dwristiaid yn gyffredinol yn cynnwys llety a llefydd bwytia.
- 4.5 Fel gyda phob arwydd cyfeiriad traffig, yr egwyddor yw darparu cyn lleied o arwyddion â phosibl, er mwyn i yrwyr gyrraedd eu cyrchfan yn ddiogel. Y sail ar gyfer hyn yw lleihau blerwch ac osgoi rhoi gormod o wybodaeth i yrwyr.
- Cyfrifoldeb am gymeradwyo arwyddion cyfeiriad i dwristiaid
- 4.6 Yng Nghymru, Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n gyfrifol yn uniongyrchol am yr A55 (yn ogystal â chefnffyrdd eraill yn Sir Ddinbych fel yr A494 a'r A5). Mae angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru er mwyn codi arwyddion brown i dwristiaid ar yr A55. Mae'r broses gymeradwyo'n cynnwys sawl cam, ac mae angen ei cheisio cyn i'r gwaith o godi arwyddion ddi-gwydd.
- 4.7 Ar wahân i'r rhwydwaith cefnffyrdd, Cyngor Sir Ddinbych yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer gweddill y rhwydwaith ffyrdd yn Sir Ddinbych. Mae'r Cyngor, felly, yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw arwyddion cyfeiriad i dwristiaid ar weddill y rhwydwaith ffyrdd.
- Cymhwyster ar gyfer arwyddion cyfeiriad i dwristiaid ar y cefnffyrdd
- 4.8 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu polisi arwyddion brown i dwristiaid eu hunain yn 2013, o'r enw "*Arwyddion Traffig ar gyfer Cyrchfannau Ymwelwyr ar Gefnffyrdd a Thraffyrdd yng Nghymru*". Mae'r copi o'r ddogfen hon yn Atodiad A. Mae'r polisi'n manylu ar y mathau o atyniadau twristiaid y gellir eu cymeradwyo gan y rhwydwaith cefnffyrdd, a meini prawf eraill sy'n rhaid eu bodloni, fel yr isafswm o ymwelwyr blynyddol.
- 4.9 Gan gymhwyso meini prawf polisi Llywodraeth Cymru i'r A55, dim ond atyniadau o fewn 10 milltir o'r A55 a gydag isafswm o 60,000 o ymwelwyr blynyddol sy'n gymwys. Y meini prawf eraill sy'n gymwys yw bod yn rhaid i'r atyniad gael cydnabyddiaeth *Croeso Cymru*, a rhaid iddo fod wedi'i achredu i *Gynllun Sicrwydd Ansawdd Croeso Cymru* (neu ryw beth tebyg).
- 4.10 Un o'r egwyddorion allweddol sydd gan Lywodraeth Cymru o ran arwyddion cyfeiriad i dwristiaid yw mai dim ond o'r gefnffordd agosaf y gellir arwyddo atyniad.
- Cost ac ariannu arwyddion cyfeiriad i dwristiaid
- 4.11 Mae cynlluniau arwyddion cyfeiriad i dwristiaid yn gyffredinol ddrud pan fyddant yn cynnwys arwyddion ar gefnffyrdd cyflymder uchel, fel yr A55. Un o'r prif resymau dros hyn yw maint aruthrol yr arwyddion sy'n ofynnol, er mwyn i yrwyr allu eu darllen o gryn bellter i ffwrdd. Mae costau'r arwyddion hefyd yn cynnwys pyst, sylfeini, rheoli traffig dros dro (e.e. conau) ac yn aml, rhwystr diogelwch.
- 4.12 Mae prosiectau arwyddion cyfeiriad i dwristiaid yn cael eu hariannu'n llwyr gan weithredwr/weithredwyr y Gyrchfan/Cyrchfannau Twristiaid, a dyma'r confensiwn

arferol ar draws y DU. Bydd y costau hyn fel arfer yn cynnwys costau paratoi'r cynllun yn ogystal â'r gwaith corfforol gwirioneddol.

Arwyddion Cyfeiriad i Dwristiaid Dyffryn Clwyd

- 4.13 Yn hwyr yn 2014, sefydlwyd gweithgor gan Ann Jones AC, i geisio symud ymlaen â chynllun arwyddion cyfeiriad i dwristiaid Dyffryn Clwyd, ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ddinbych, Cyngor Tref Dinbych, Cyngor Tref Rhuddlan, Cyngor Tref Rhuthun, Cyngor Tref Llanellwy, CADW, Esgobaeth Llanellwy a swyddogion o Adain Traffig y Cyngor, a'r Tîm Datblygu Busnes ac Economaidd.
- 4.14 I ddechrau, roedd wedi bod yn anodd canfod ffordd o roi arwyddion ar gyfer Dyffryn Clwyd mewn dull a fyddai'n cydymffurfio â pholisi arwyddion twristiaid Llywodraeth Cymru. Roedd dau reswm dros hyn. Yn gyntaf, fel y diffinnir gan ganllawiau Llywodraeth Cymru, nid yw Dyffryn Clwyd yn Atyniad i Dwristiaid yn ei hun, oherwydd mai ardal ydyw yn hytrach nag atyniad penodol. Yn ail, nid oedd unrhyw rai o'r Atyniadau Twristiaid yn Nyffryn Clwyd a ystyriwyd ar gyfer arwyddion yn bodloni'r gofyniad o 60,000 o ymwelwyr blynyddol ar y lleiaf. Canfuwyd ateb, fodd bynnag, sef grwpio atyniadau ynghyd o dan y teitl "Dyffryn Clwyd", fel y nodir yn y trefniant arwyddion yn Atodiad B. Hefyd, pan gânt eu grwpio â'i gilydd, mae nifer cyfun yr ymwelwyr yn rhagori ar y trothwy o 60,000.
- 4.15 Yn dilyn trafodaethau gyda'r Gweithgor, penderfynwyd y byddai'r tri atyniad canlynol yn cael eu cynnwys ar arwydd Dyffryn Clwyd:
- i) Castell Dinbych
 - ii) Castell Rhuddlan
 - iii) Eglwys Gadeiriol Llanellwy
- 4.16 Yn wreiddiol, cynlluniwyd i gynnwys Carchar Rhuthun hefyd ar yr arwydd A55, ond yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, rhoddwyd gwybod i ni nad oedd modd cynnwys yr atyniad hwn, oherwydd yn gyntaf, mae'n fwy na 10 milltir o adran Sir Ddinbych o'r A55, ac yn ail, oherwydd nad yr A55 yw'r gefnffordd agosaf i Garchar Rhuthun (yr A494 yw'r gefnffordd agosaf).
- 4.17 Amcangyfrifir mai cyfanswm tebygol y prosiect yw £153,000. Yn y Gweithgor, sefydlwyd yr egwyddor y byddai'r Cyngorau Tref/Dinas a gweithredwyr yr atyniadau (CADW ac Esgobaeth Llanellwy) yn ariannu'r gost o'r gwaith corfforol o godi'r arwyddion, a amcangyfrifwyd o gostio £130,000. Yn ei dro, cytunwyd y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn ariannu'r datblygiad cyfan o'r cynllun, y dyluniad, a chostau goruchwyllo contractwyr a gweinyddol (a amcangyfrifwyd o fod yn £23,000).
- 4.18 Gweithiodd Swyddogion ar y cyd â swyddogion yn CADW ac Esgobaeth Llanellwy i gyflwyno'r ceisiadau cychwynnol ar gyfer yr egwyddor o gymeradwyo'r atyniadau uchod o'r A55. Rhoddwyd y gymeradwyaeth hon yn 2016.
- 4.19 Y cam nesaf o'r prosiect oedd datblygu cynllun arwyddion amlinellol ar gyfer cymeradwyaeth, sy'n dangos lleoliadau arfaethedig yr arwyddion newydd, yn ogystal â diwygiadau i arwyddion presennol sydd eu hangen er mwyn cael lle i'r arwyddion newydd. Mae'r cynllun hwn wedi'i gyflwyno ac wedi cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru wedi hynny.

- 4.20 Rydym bellach yn y cam o ddechrau ar y gwaith dylunio manwl. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys y dyluniad a'r manylion am y deunyddiau i't arwyddion, yn ogystal â dyluniad strwythurol y pyst a'r sylfeini. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd y gwaith hwn hefyd angen cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.
- 4.21 Mae amcangyfrif mwy cywir o'r gost yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd, a bydd angen y gost hon yng nghyfarfod nesaf o'r Gweithgor, fel y gellir cael rhagor o drafodaethau am ariannu gan weithredwyr a Chynghorau Tref/Cymuned.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'n cyfrannu at y Flaenoriaeth Gorfforaethol, "yr Amgylchedd" ac yn benodol y cam gweithredu i "Godi proffil y Sir fel lleoliad i ymweld ag ef, er mwyn manteisio ar botensial economaidd Sir Ddinbych".

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Mae'r costau i ddylunio, datblygu a gweinyddu'r prosiect yn cael eu diwallu o gyllideb refeniw Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, sy'n cael ei amcangyfrif yn £23,000.
- 6.2 Yr egwyddor a sefydlwyd gan y Gweithgor yw y bydd y gost o'r gwaith corfforol (a amcangyfrifwyd yn £130,000), h.y. gweithgynhyrchu a gosod arwyddion, pyst; sylfeini; rheoli traffig dros dro; a rhwystrau diogelwch, yn cael eu diwallu'n llwyr gan gyfraniadau gan y Cynghorau Tref/Dinas yr effeithiwyd arnynt a gweithredwyr yr atyniadau twristiaid.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes Asesiad o Effaith ar Les wedi'i roi ar y sail mai pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad ar gynllun arwyddion i dwristiaid Dyffryn Clwyd, wrth roi gwybodaeth gyffredinol am y broses ymgeisio ar gyfer arwyddion cyfeiriad i dwristiaid ar gefnffyrdd, a'r meini prawf cymhwyso cysylltiedig.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Mae'r Gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Gynghorau Tref/Cymuned a Chynghorwyr Sir o ardaloedd daearyddol perthnasol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r gwasanaeth wedi cadarnhau y bydd y buddsoddiad gofynnol o £23k gan Gyngor Sir Ddinbych yn gallu cael ei ddarparu o fewn cyllidebau gwasanaeth presennol. Mae'n bwysig monitro hyn yn ofalus. Ar y sail hon, gellir cefnogi'r cynnig.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Yr unig risg sylweddol sy'n weddill o ran y prosiect yw os nad yw Cynghorau Tref/Dinas a gweithredwyr atyniadau twristiaid yn gallu cyfrannu'r arian angenrheidiol. Pe bai hyn yn digwydd, yna ni fyddai'r prosiect yn gallu symud ymlaen ymhellach hyd nes y byddai digon o arian yn cael ei nodi.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Adrannau 7.4.1 a 7.15.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r mater hwn.

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd
Rhif ffôn: 01824 706959

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Ffordd Cymru
The Wales Way



Y Cyfle

Beth yn union yw'r fenter "Ffordd Cymru"?

Cyfes o lwybrau twristiaeth gydag apêl ryngwladol a fydd yn cael ei lansio ddiwedd 2017.

Bydd Ffordd Cymru yn gyfes o dri llwybr gyda phwyslais ar brofiadau yn hytrach na theithio'n syml rhwng A a B, felly bydd y llwybrau yn annog ymwelwyr i aros ac ymweld â chynhyrchion/ardaloedd ar y daith. Mae'r llwybrau craidd yn cynnwys yr A55 ac yn cael eu croestorri gan 2 lwybr twristiaeth fertigol sy'n cynnwys yr A470 a'r A487.

Dyma deitlau swyddogol y 3 prif lwybr:


- Ffordd Gogledd Cymru – The North Wales Way (A55)
- Ffordd Arfordirol – The Coastal Way (A487)
- Ffordd Cambria – The Cambrian Way (A470)

Wrth gwrs, bydd modd addasu'r llwybrau yn bersonol ac annog teithiau oddi ar y prif lwybr (e.e. 40 munud oddi ar y brif ffordd). Bydd pob un yn ceisio cynrychioli'r gorau o Gymru – o'n profiad ymwelwyr, i'n lletygarwch a'n busnesau twristiaeth – a byddwn yn dathlu'r hyn sy'n gwneud Cymru'n unigryw.

Ffordd Cambria

Ffordd Arfordirol

Ffordd Gogledd Cymru



Pam y dull “Ffordd Cymru” – h.y. a oes cyrchfannau eraill wedi defnyddio’r dull hwn ac a lwyddodd?

Rydym yn ffodus i gael enghreifftiau rhagorol i’n rhoi ar ben ffordd. Mae hyn wedi helpu i greu’r cysyniad o roi gwybodaeth werthfawr fel “gwersi a ddysgwyd” ynghyd ag arwydd o’r effaith y gall mentrau fel hyn ei chael, yn enwedig o ran denu ymwelwyr rhyngwladol gwerthfawr.

Mae’r cysyniad o “Lwybrau Cenedlaethol” yn un cyfarwydd. Yn agos i gartref, efallai y byddwch yn ymwybodol o’r *Wild Atlantic Way* (WAW) yn Iwerddon (www.wildatlanticway.com); mae’r WAW yn llwybr teithio arfordirol ar hyd Arfordir Iwerydd Iwerddon, gan gwmpasu 9 sir o Kinsale yn y De i Malin Head yn y Gogledd. Ers ei greu yn 2013, mae’r llwybr yn un o’r enghreifftiau “ieuengaf” ac mae’n mynd o nerth i nerth nid yn unig o ran ei boblogrwydd ond hefyd o ran ei allu i agor drysau i gyrchfannau/cynnyrch ar gyfer ymweliadau pellach a buddiannau economaidd yn sgil hynny.

Yn yr Alban, mae *North Coast 500* (<https://www.visitscotland.com/see-do/tours/driving-road-trips/north-coast-500/>) yn llwybr cylchol sy’n dechrau a gorffen yn Inverness, gan fwynhau golygfeydd arfordirol trawiadol ac arwain profiadau ymwelwyr, o atyniadau i weithgareddau.

Ymhellach o Gymru, yn Norwy mae creu a hyrwyddo 18 *Llwybr Cenedlaethol* (<http://www.nasjonaleturistveger.no/en/routes>) nid yn unig wedi annog ymweliadau ond hefyd wedi annog datblygiadau ac arloesedd masnachol ar hyd y daith.

Wrth gwrs, mae nifer o enghreifftiau rhyngwladol eraill fel y Route 66 enwog sydd wedi hen ennill ei blwyf yn UDA, sef 2,500 milltir o brofiadau o Chicago yn y dwyrain i Santa Monica ar arfordir y gorllewin, ond rydym yn amlwg wedi edrych ar y gwledydd a’r cyrchfannau sy’n cynnig maint a chynnyrch y gallwn eu cymharu a’u cyferbynnu â Chymru.

Un peth y mae’r holl lwybrau hyn yn ei gynnig yw eu gallu i ysgogi ac annog ymwelwyr, gan gynnig glasbrint ar y profiadau gorau y gall pob cyrchfan eu cynnig.

Pam mae’r fenter yn cael ei chynllunio?

Diben “Ffordd Cymru” fydd darparu canolbwynt ar gyfer marchnata rhyngwladol, gan roi mwy o sylw (a lluniau y gellir eu marchnata) i Gymru ar lwyfan byd. Er gwaethaf twf parhaus twristiaeth i Gymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Cymru ar ei hôl hi o hyd o gymharu â gwledydd eraill o ran ymwybyddiaeth, yn enwedig o safbwynt marchnadoedd rhyngwladol.

Bwriad Ffordd Cymru yw rhoi dyfnder a sylwedd i frand newydd Cymru a chreu canolbwynt ar gyfer diwydiant. Bydd yn ceisio sbarduno datblygiad profiadau twristiaeth cadarn a rhyngwladol ragorol i ysgogi ymweliadau.

Yn y pen draw, bydd Ffordd Cymru yn cynrychioli teulu o lwybrau o safon byd gyda phrofiadau unigryw a hynod wrth eu gwraidd, ac yn ceisio sicrhau manteision economaidd gwirioneddol a pharhaus i Gymru.

Pa ymwelwyr fydd yn cael eu targedu?

Mae Ffordd Cymru yn gyfle gwych i dargedu marchnad ymwelwyr rhyngwladol sy’n gwario mwy ond bydd hefyd wrth gwrs, yn ychwanegu at apêl Cymru a’r hyn sydd ganddi i’w chynnig mewn marchnadoedd domestig craidd, cystadleuol.

Mae gan segmentau marchnad a dargedir Croeso Cymru agwedd gyffredin tuag at gymryd gwyliau. Yn gyffredinol, maent yn cael eu disgrifio fel “Archwilwyr Annibynnol”.

Os oes angen, mae rhagor o wybodaeth am yr Archwilwyr Annibynnol a’r ffordd o’u dadansoddi fesul segmentau o’r farchnad (e.e. Archwilwyr Actif Teuluol, grwpiau a pharau Archwilwyr Actif, parau archwilwyr Golygfeydd) ar gael ar gais.

Am faint y cynhelir menter Ffordd Cymru?

I ddechrau, bydd hon yn rhaglen weithgarwch 10 mlynedd. Bydd yn esblygu a datblygu dros y degawd nesaf, gan gynnig cyfle i ddiwydiant/cyrchfannau weithio gyda’r cysyniad a’i defnyddio i feithrin mantais gystadleuol.



Tudalen 56

Pwy fydd y corff arweiniol – a yw'n fenter drawsbynciol ar gyfer Llywodraeth Cymru? (h.y. a fydd yn cynnwys trafnidiaeth/seilwaith, band eang ac ati)?

Er y bydd Ffordd Cymru yn cael ei 'lansio' gan Croeso Cymru yn ddiweddarach eleni, bydd yn cael ei hategu gan strategaeth hirdymor sy'n galw am bartneriaeth eang, cymorth i'r diwydiant twristiaeth, arweiniad cadarn, ymgysylltu trawsbortffolio â'r Llywodraeth a dull buddsoddi cynhwysfawr.

Mae Croeso Cymru yn darparu'r weledigaeth a'r brand trosfwaol a'r fframwaith ar gyfer y rhaglen, ond y bwriad yw i ranbarthau, cyrchfannau a busnesau fanteisio ar hyn fel cyfle i roi mwy o sylw iddynt yn y farchnad.

Sut mae cynnyrch/cyrchfan/sefydliad yn cymryd rhan?

Mae'r prosiect ond megis dechrau a drwy gyflwyno gwybodaeth yn raddol rydym yn gobeithio neilltuo digon o amser i'r rhai sydd am gymryd rhan ystyried sut gallent fanteisio ar y llwybrau.

Gallai hyn fod yn meddwl am sut y gallent nid yn unig elwa yn y tymor byr (e.e. yn y 12-24 mis nesaf) ond hefyd gall y cyfleoedd a gyflwynir gan fenter 10 mlynedd mor gynhwysfawr gael eu gwireddu drwy ystyried blaengynllunio.

Sut bydd y cynnyrch cychwynnol (i'w lansio) yn cael ei ddewis?

Isod, amlinellir ein canllawiau cyffredinol ar gyfer dethol cynnyrch ar gyfer ei lansio.

- Bydd cynnyrch unigryw ac a chefnogol yn cael blaenoriaeth.
- Cynhyrchion sy'n cyd-fynd â gweledigaeth, gwerthoedd ac amcanion ein brand cenedlaethol.
- Dylai cynnyrch ategol fod yn aeddfed ac yn barod i'w farchnata ar gyfer Hydref 2017.
- Taith o rhwng 30-40 munud mewn car o brif feingefn y llwybr.
- Dylai digwyddiadau fod yn eiconig, wedi ennill eu plwyf ac yn flynyddol.
- Cynnyrch sy'n cefnogi y dull blynyddoedd thematig. Blwyddyn y Môr – 2018, Blwyddyn Darganfod 2019.
- Cynnyrch sy'n cefnogi a chryfhau cynnig twristiaeth unigryw pob llwybr:
 - Diwylliant/Treftadaeth – Ffordd Gogledd Cymru
 - Arfordirol – Ffordd Arfordirol
 - Cefn Gwlad – Ffordd Cambria

Mae fframwaith wedi'i ddatblygu i strwythuro'r broses o nodi'r profiadau twristiaeth allweddol ar hyd y llwybrau a nodi bylchau ar gyfer datblygu profiadau newydd posibl.

Mae'r fframwaith yn seiliedig ar system o brofiadau Unigryw, Cefnogol ac Ategol sy'n cael eu dewis ar sail pa mor gryf y maent yn adlewyrchu brand cenedlaethol Cymru.


Am y 6 mis cyntaf ar ôl ei lansio, bydd Croeso Cymru yn canolbwyntio ar gael y cynnyrch Unigryw ac Ategol yn iawn. I ddechrau, gydag ymwelwyr rhyngwladol mewn golwg, bydd yn rhaid i ni ddarparu'r lleoedd, y cynnyrch a'r profiadau gorau, eiconig a rhaid eu gweld/gwneud.

Gan ychwanegu mwy o ddyfnder i'r cynhyrchion, gan gynnwys llwybrau ac amserlenni amlfodd yn ystod 2018. Bydd hwb gwefan Google Map tebyg i The National Tourist Routes yn Norwy <http://www.nasjonaleturistveger.no/en/routes> yn cael

datblygu yn croesocymru.com



Fframwaith y Prosiect



Bydd yr holl gynnyrch, lleoedd a phrofiadau a ddewisir yn cyd-fynd â'r weledigaeth brand, y gwerthoedd craidd a'r amcanion.

Gweledigaeth Brand Ffordd Cymru

Bydd Ffordd Cymru yn dod yn symbol ysbrydoledig o'n hyder, ein hyfdra a'n huchelgais.

Byddant yn cynrychioli'r gorau o Gymru, o'n profiad ymwelwyr, i'n lletygarwch a'n busnesau Maent yn cyfleu'r hyn sy'n gwneud Cymru yn unigryw.

Gwerthoedd Brand

Naturiol	ystyrlon, ansawdd uchel gyda naws cadarn ac unigryw o le.
Creadigol	arloesol, ar flaen y gad a chyfoes dros ben.
Byw	hygyrch, cynhwysol a gafaelgar.

Amcanion Brand

- Codi ein statws
- Synnu ac ysbrydoli
- Newid canfyddiadau
- Gwneud pethau da
- Cymru, heb os nac oni bai

Mae Croeso Cymru wedi adeiladu cronfa ddata gynhwysfawr o gynnyrch y teimlwn sy'n:

- Cyfleu brand Cymru

—Cefnogi themâu'r llwybr a'r thema "Blynyddoedd o" brofiad

—Cynrychioli'r gorau o Gymru ar sail ein segmentau marchnad a dargedir dewisol

Mae'r wybodaeth am y cynnyrch wedi'i dethol nid yn unig o adnoddau cydnabyddedig (e.e. gwefannau cyrchfannau, cofnodion sefydliadol), ond hefyd, ac yn fwyaf hanfodol, o ymchwil i sylw a ffocws y cyfryngau (e.e. Lonley Planet, Rough Guide a'r wasg prif ffrwd sy'n apelio i'r Archwilydd Annibynnol) a drwy ymchwilio hefyd i "dystiolaeth gymdeithasol".

Mae mwy o rôl nag erioed i dystiolaeth gymdeithasol wrth gynllunio gwyliau ac, yn syml, mae'n disgrifio rôl ddylanwadol argymhellion cymheiriaid i gymheiriaid a sianeli allweddol, e.e. mae The Wild Atlantic Way wedi cael llawer o sylw da drwy blatfformau fel Instagram lle mae delweddau (ac argymhellion yn bennaf) cynnyrch poblogaidd yn cael eu rhannu.

Rydym yn monitro'r cynhyrchion ledled Cymru sy'n ysgogi argymhellion a rhannu ar-lein fel lleoliadau eiconig "rhaid eu gweld" ac mae hyn wedi dylanwadu ar ein dewisiadau cychwynol.

Os nad yw cynnyrch wedi'i gynnwys ar y dechrau, a ellir ei gynnwys yn ddiweddarach?

Er y bydd rhai cynhyrchion penodol yn cael eu cynnwys ar gyfer y lansio, nid yw hyn yn golygu na fydd awgrymiadau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn ddiweddarach.

Ar ôl i'r diwydiant/sector gael gwell synnwyr o gynnwys a chwmpas llwybrau Ffordd Cymru, ein gobaith yw y bydd hyn yn sbarduno eraill i arddangos cynhyrchion presennol ychwanegol, ac yn bwysicach, cynhyrchion a phrosiectau newydd sy'n ceisio gwireddu cyfleoedd i ddatblygu defnyddio Ffordd Cymru fel sylfaen.

Sut mae'r fenter yn cyd-fynd â'r Blynyddoedd thematig h.y. Antur 2016, Chwedlau 2017, Môr 2018 a Darganfod 2019?

Rhan bwysig o ddewis cynnyrch, ar sail y fframwaith fydd dethol, os yw'r cynnyrch yn ategu Tudalen 59
categori'r "Blynyddoedd thematig....".



Tudalen 60

Ydy'r fenter ar gyfer y "chwaraewyr mawr?" a chyrchfannau'n unig?

Dim o gwbl. Bydd cael eich cynnwys ai peidio mewn prosiect yn seiliedig ar y fframwaith ac yn seiliedig ar fod yn addas yn hytrach nag ar eich maint.

A fydd digwyddiadau/gwyliau yn cael eu cynnwys hefyd?

Bydd digwyddiadau sy'n apelio i'r marchnadoedd targed ac sy'n cefnogi brand Cymru yn rhan bwysig o apêl Ffordd Cymru wrth gynllunio ymweliadau.

A oes cyfleoedd i gwmnïau teithio gymryd rhan neu sefydlu busnesau newydd o gwmpas cynnyrch y llwybr?

Mae mentrau eraill sydd wedi'u cyflwyno'n raddol (e.e. Wild Atlantic Way) wedi profi'n gerrig sylfaen i ddechrau mentrau masnachol newydd wedi'u lleoli o gwmpas y llwybr, a'n gobaith yw bydd hyn yn digwydd yng Nghymru hefyd.

Bydd tîm masnach teithio Croeso Cymru yn defnyddio'r rhwydweithiau cwmnïau teithio presennol i annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd a ddaw yn sgil y 3 llwybr ynghyd â chwilio am bartneriaid newydd.

